# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Hydref 2023

Amser: 13.30 - 15.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13512

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Carolyn Thomas AS (yn lle Huw Irranca-Davies AS)<br>Alun Davies AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Luke Fletcher AS (yn lle Adam Price AS) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gruffydd Owen (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Huw Irranca-Davies ac Adam Price. Yn unol â'r cynnig y cytunwyd arno yn y cyfarfod blaenorol, cafodd y Pwyllgor ei gadeirio dros dro gan Alun Davies.

Croesawyd Carolyn Thomas a Luke Fletcher i'r Pwyllgor fel dirprwyon.

## 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(6)389 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(6)388 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(6)391 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(6)390 – Gorchymyn Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1) 2023

Trafododd y Pwyllgor y gorchymyn a chytunodd y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(6)382 - Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb i Argymhelliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 7.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Argaeledd data wedi'u dadgyfuno ar y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 7.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a chytunodd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol gyda chwestiynau atodol.

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol 'Gwnaed'**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol 'Gwnaed'**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.